OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 476 (Cy.71) (C.18)

# GWASTRAFF, CYMRU

## Gorchymyn Mesur Gwastraff (Cymru) 2010 (Cychwyn) 2011

*Wedi'i wneud - - 22 Chwefror 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 21(1) o Fesur Gwastraff (Cymru) 2010(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

### Enwi, cymhwyso a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Mesur Gwastraff (Cymru) 2010 (Cychwyn) 2011.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Gorchymyn hwn —

ystyr "y Mesur" ("*the Measure*") yw Mesur Gwastraff (Cymru) 2010.

### Y diwrnod penodedig

**2.** Daw adran 3 o'r Mesur i rym ar 4 Mawrth 2011.

*Jane Davidson*
Y Gweinidog dros yr Amgylchedd,
Cynaliadwyedd a Thai, un o Weinidogion Cymru

22 Chwefror 2011

(**1**) 2010 mccc 8

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dod ag adran 3 o Fesur Gwastraff (Cymru) 2010 ("y Mesur") i rym a hynny ar 4 Mawrth 2011.

Daeth gweddill darpariaethau'r Mesur i rym ar 15 Chwefror 2011 yn rhinwedd adran 21(2) o'r Mesur.